

Adroddiad Monitro
Cynllun Iaith Gymraeg /
Safonau Iaith Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
2015 - 2016

Paratowyd yn unol â gofynion



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mai 2016

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 1.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith gyfreithiol i osod dyletswydd ar y Cyngor, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael 167 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn:
 - Cyflenwi Gwasanaethau
 - Gweithredu
 - Llunio Polisi
 - Hybu
 - Cadw Cofnodion
- 1.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd).
- 1.4 Pwrpas y Safonau yw:
 - rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
 - rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
 - sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.
- 1.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a ddiwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor ac ar ei wefan gyhoeddus. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i'r gwasanaethau unigol i gyd drwy gyfrwng swyddogion cyswllt y Gymraeg ac yn ogystal â hyn, cyhoeddir gwybodaeth am yr adroddiad monitro cyffredinol ynghyd â'r argymhellion ar y fewnrwyd a'i ddosbarthu drwy gyfrwng negeseuon ar y system negeseuon mewnol, yn y Briff Tîm ac yn y Newyddlen Staff.
- 1.7 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a thargedau'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2015-2016. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

2.0 CYNNYDD SYLWEDDOL

Mae sawl ymgyrch wedi golygu fod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodedb ohonynt:

- 2.1 **Cortynnau Gwddf iaith Gwaith** – Mae pob aelod o staff y Cyngor sy'n siarad Cymraeg yn rhugl bellach yn gwisgo cortyn gwddf neu fathodyn iaith gwaith ac maent yn defnyddio'r logo "Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg" yn eu llofnod ar negeseuon e-bost.
- 2.2 **Cortynnau Gwddf Dysgwyr** – Cafwyd adborth gan rai dysgwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf nad oeddent yn teimlo'n gyffyrddus yn gwisgo'r cortyn gwddf iaith gwaith oherwydd bod pobl yn ystyried bod hynny'n dynodi eu bod yn rhugl yn Gymraeg, felly rydym wedi cael cortynnau gwddf 'Dysgwr' ar eu cyfer, ac mae nifer fawr iawn o staff wedi gwneud cais amdanynt ac yn eu gwisgo.
- 2.3 **Casglu Sgiliau iaith Gymraeg Staff y Cyngor** – ychydig o staff sydd heb lenwi manylion am eu sgiliau iaith Gymraeg bellach ers datblygu'r teclyn y llynedd. Mae'r wybodaeth a gesglir hefyd ar gael wrth chwilio am aelod o staff ar y fewnwyd er mwyn medru adnabod siaradwyr Cymraeg wrth gysylltu â staff eraill yn y Cyngor. Bellach, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r system wedi'i datblygu i gynnwys cwestiwn ynglŷn ag a yw'r swyddogion yn gweithio ar dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop.
- 2.4 **Teclyn Sgiliau iaith a Negeseuon E-bost** – drwy gymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bellach, mae'r Teclyn Sgiliau iaith wedi'i gysylltu â'r rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Felly, os ydi aelod o staff yn ysgrifennu neges e-bost at aelod arall o staff y Cyngor, a bod yr aelod hwnnw o staff yn siarad Cymraeg, bydd neges yn ymddangos uwchben ei enw ar y neges yn dweud "Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak Welsh". Mae hyn wrth gwrs o gymorth mawr i staff y Cyngor wrth gyfathrebu â staff eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws o lawer gwybod beth yw sgiliau iaith y staff a'i gwneud yn haws cychwyn sgysiau dros e-bost yn Gymraeg.
- 2.5 **Diwrnod Shwmae Sumae! 2015 – 14 Hydref 2015** - Bwriad y diwrnod cenedlaethol hwn ydi annog pawb, yn siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg fel ei gilydd, i gyfarch pobl eraill ar y diwrnod trwy ddweud "S'mai?" a drwy hynny godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yma yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fe wnaethom anfon neges at holl staff y Cyngor ar y bore yn eu hannog hwythau i ddweud "S'mai?" Yn dilyn hyn, fe wnaeth sawl gwasanaeth drefnu codi ymwybyddiaeth o'r diwrnod drwy drefnu diwrnod S'mai eu hunain.
- 2.6 **Cwynion** – Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn.
- 2.7 **Hyfforddiant** – Parhawyd â'r llwyddiant a welwyd y llynedd, gyda nifer o staff ac Aelodau wedi cofrestru ar gyfer amrywiol sesiynau hyfforddiant iaith Gymraeg. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys cyrsiau sy'n rhan o ddarpariaeth Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, ar amryw o wahanol lefelau. Cynhaliwyd cyrsiau gofal cwsmer dwyieithog / ymwybyddiaeth iaith hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth am hyfforddiant iaith Gymraeg ym mhwynt 4.4.

- 2.8 Bu 6 mis diwethaf y flwyddyn (1 Hydref 2015 – 31 Mawrth 2016) yn gyfnod prysur iawn yn hysbysu bob gwasanaeth am y Safonau Iaith Gymraeg newydd a'r gofynion newydd sydd ynghlwm wrthynt. Bu'r Swyddog Iaith yn cyfarfod â phob Pennaeth Gwasanaeth a thimau rheoli ac amrywiol dimau unigol eraill, a hefyd bu'n anfon negeseuon wythnosol at bob aelod o staff yn rhoi gwybod iddynt am newidiadau ac yn eu hatgoffa am yr amrywiol ofynion sy'n codi o'r Safonau Iaith. Er bod y Cyngor mewn sefyllfa dda iawn o fod yn cydymffurfio â mwyafrif y Safonau, roedd nifer o ofynion newydd ynghlwm wrthynt ac felly bu'n gyfnod prysur yn rhoi pob un o'r 151 Safon ar waith erbyn 30 Mawrth 2016. Mae'r Cyngor felly yn ffyddiog ei fod yn cydymffurfio â phob un o'r 151 o Safonau a ddaeth i rym ar 30 Mawrth 2016.
- 2.9 Rhoddwyd Polisi Iaith Gymraeg newydd a Pholisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar waith ym mis Mawrth 2016. Bwriad y ddau bolisi yw sicrhau bod staff y Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith newydd a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

3.0 ARGYMHELLION AR GYFER GWELLA / CYNNYDD PELLACH

- 3.1 **Safonau Newydd** – Mae'r 6 mis nesaf hefyd yn mynd i fod yn gyfnod prysur iawn wrth i ni roi'r Safonau Llundain Polisi a'r Safonau Hybu ar waith. Mae rhai mesurau eisoes wedi'u rhoi ar waith wrth baratoi tuag atynt, ond, bydd gwaith yn parhau dros y 6 mis nesaf er mwyn cydymffurfio â nhw.
- 3.2 **Casglu Sgiliau Iaith Gymraeg** - Parhau â'r system ar y fewnwyd i gasglu sgiliau iaith Gymraeg staff y Cyngor a dod o hyd i sgiliau iaith staff y Cyngor sydd ddim yn defnyddio cyfrifiaduron wrth eu gwaith.

4.0. CADW COFNODION

- 4.1 **Cwynion** – Ni chafwyd yr un gŵyn yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod 2015-16.
- 4.2 **Prif dderbynfa** - Lleolir prif dderbynfa/switsfwrdd y Cyngor ym mhrif swyddfa'r Cyngor ym Modlondeb. Dynodwyd pob un o swyddi'r brif dderbynfa/switsfwrdd yn rhai Cymraeg hanfodol ac mae pob un o'r 7 aelod o staff (100%) sy'n gweithio yno yn ddwyieithog ac yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg lefel 4 neu uwch.
- 4.2 **Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Cyngor** – mae'r nifer o staff sydd wedi llenwi eu manylion ar y system cadw sgiliau iaith Gymraeg staff y Cyngor wedi cynyddu'n arw ers ei ddatblygu y llynedd. Mae'r wybodaeth a gesglir hefyd ar gael wrth chwilio am aelod o staff ar y fewnwyd er mwyn medru adnabod siaradwyr Cymraeg wrth gysylltu â staff eraill yn y Cyngor.
- Ac eithrio ysgolion, mae'r awdurdod yn cyflogi 2,330 o staff parhaol.
 - Ers datblygu teclyn sy'n ymddangos ar gyfrifiaduron pawb sy'n medru casglu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff gyda'r Adran Technoleg Gwybodaeth, bu cynnydd mawr yng nghywirdeb ystadegau sgiliau ieithyddol staff. Bellach, mae bob aelod o staff y Cyngor yn medru defnyddio'r teclyn hwn, ac rydym, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wrthi casglu gwybodaeth am weddill y staff hynny nad ydynt â mynediad i'r fewnwyd.

- Rydym eisoes wedi casglu manylion am sgiliau iaith Gymraeg 1,984 o staff y Cyngor drwy ddefnyddio'r teclyn hwn. Mae staff y cyngor wedi defnyddio'r teclyn ar y fewnwyd i nodi eu sgiliau iaith Gymraeg gan ddefnyddio'r tabl a welir yn y Strategaeth Sgiliau Iaith. Er bod ychydig o staff heb lenwi eu gwybodaeth eto, dyma sgiliau iaith y 1,984 o staff sydd wedi ateb y cwestiynau ar y fewnwyd.
- Gwelir o'r rhai sydd wedi ymateb, bod 27.4% wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Lefel 4 a 5).
- Teimlir erbyn hyn fod y manylion isod yn gywir gan mai'r staff eu hunain sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth, fodd bynnag, oherwydd yr amheuaeth am ddilysrwydd yr ystadegau yn y blynyddoedd blaenorol, ac o gofio mai dim ond 1,245 aelod o staff oedd wedi llenwi eu manylion y llynedd, ni theimlir y gellir cymharu'r ffigyrau hyn gyda'r ffigyrau blaenorol. Bydd ffenestr yn ymddangos ar gyfrifiaduron pob aelod o staff bob 90 diwrnod o hyn ymlaen a fydd yn gofyn i staff wirio a diweddarau eu manylion, felly bydd modd gwneud yn siŵr fod y wybodaeth yn cael ei diweddarau'n gyson o hyn ymlaen.

Gwrando / Siarad		
Lefel	Nifer y staff	%
Lefel 0	429	21.6
Lefel 1	369	18.6
Lefel 2	194	9.8
Lefel 3	448	22.6
Lefel 4	239	12.0
Lefel 5	305	15.4
CYFANSWM	1,984	

Darllen / Deall		
Lefel	Nifer y staff	%
Lefel 0	399	20.1
Lefel 1	389	19.6
Lefel 2	186	9.4
Lefel 3	452	22.8
Lefel 4	249	12.6
Lefel 5	309	15.5
CYFANSWM	1,984	

Ysgrifennu		
Lefel	Nifer y staff	%
Lefel 0	536	27.0
Lefel 1	353	17.8
Lefel 2	204	10.3
Lefel 3	487	24.5
Lefel 4	155	7.8
Lefel 5	249	12.6
CYFANSWM	1,984	

4.3 Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn – Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd Cymraeg yn hanfodol; Cymraeg yn fanteisiol neu Gymraeg yn ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg. Gwelir o'r ystadegau isod bod nifer uchel o siaradwyr Cymraeg wedi'u penodi i swyddi Cymraeg hanfodol, Cymraeg manteisiol a Chymraeg dymunol, cyfanswm o 83.8%. Ers dyfodiad y Safonau, mae'r categori manteisiol wedi diflannu, felly o hyn allan, ni fydd y categori hwnnw yn cael ei ddefnyddio.

CATEGORI	NIFER A % FESUL CATEGORI IAITH	NIFER A % Y SWYDDI LLE PENODWYD SIARADWYR CYMRAEG
CATEGORI A HANFODOL: CYSWLLT Â'R CYHOEDD	41.1% - 113 swydd	O'r swyddi y recriwtiwyd iddynt (100 swydd), penodwyd siaradwyr Cymraeg (lefel 4 ac uwch) i 100 (100%) ohonynt. Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 13 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
CATEGORI B MANTEISIAL	29.6% - 134 swydd	O'r swyddi y recriwtiwyd iddynt (95 swydd), roedd 72 swyddog yn siarad Cymraeg (54.5%). Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 39 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
CATEGORI C DYMUNOL	13.1% - 51 swydd	O'r swyddi y recriwtiwyd iddynt (48 swydd), roedd 32 swyddog yn siarad Cymraeg (41.4%). Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 3 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
CYFANSWM YM MHOB CATEGORI	298 (243 o swyddi y recriwtiwyd iddynt)	Felly, o'r 243 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 204 o siaradwyr Cymraeg, sef canran o 83.8%.

4.4 **Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd** – Gwelir isod fanylion am nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o Gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2015-16.

WLPAN YN Y GYMUNED

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
Dechreuwyd 2015/16	Y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg	Cwrs blwyddyn ar gyfer pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg	Dewis personol y staff	0
Canol WLPAN 2015/16				1
Pellach 2015/16				3
Pellach Drwy'r Post 2015/16				1
Uwch 2015/16				3
CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS				8

CYMRAEG YN Y GWEITHLE

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
9-11 Medi 2015 (3 diwrnod)	Pob lefel o ddysgwyr pur i siaradwyr rhugl	Cwrs sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr adolygu ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg gyda phwyslais arbennig ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. (Prifysgol Bangor)	Dewis personol y staff	3
CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS				3

SESIWN GYFLWYNO GORFFORAETHOL

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
29 Mai 2015 (1 diwrnod)	Aelodau newydd o staff – (Dylai pob aelod o staff newydd fynychu sesiwn gyflwyno gorfforaethol o fewn 6 mis o ddechrau gweithio efo'r cyngor.)	Caiff y swyddogion anerchiad gan yr Arweinydd drwy glip fideo yn Gymraeg ac anerchiad gan y Prif Weithredwr, gyda rhan o'r anerchiad yn Gymraeg. Hefyd rhoddir gwybodaeth iddynt gan amrywiol wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys cyflwyniad am y Safonau Iaith a'r Cymorth a'r Gefnogaeth sydd ar gael gan yr Uned Gwasanaethau Iaith Corfforaethol, gan gynnwys y Gwasanaeth Cyfieithu. (Staff o amrywiol wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)	Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy'n cychwyn gweithio gyda'r Cyngor	18
24 Gorffennaf 2015 (1 diwrnod)				16
13 Tachwedd 2015 (1 diwrnod)				17
15 Ionawr 2016 (1 diwrnod)				21
11 Mawrth 2016 (1 diwrnod)				18
CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS				90

GOFAL CWSMER DWYIEITHOG – ½ DIWRNOD

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
8 Medi 2015 (Cwrs ½ diwrnod)	Staff rheng flaen (Siaradwyr di-Gymraeg)	Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gofal cwsmer dwyieithog fel rhan o weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. (Uned Iaith y Cyngor)	Gorfodol i aelodau newydd staff y Cyngor nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg nac ychwaith wedi mynychu'r ysgol yng Nghymru	7
CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS				5

YMWYBYDDIAETH IAITH

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu a chanran o'r nifer a wahoddwyd
6 Mai 2015 (3 awr)	Staff newydd y Cyngor – Siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Os oes lleoedd gwag ar ôl, cynigir y cwrs i unrhyw un o staff y Cyngor sydd â diddordeb ynddo.	Sesiwn yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a sensitifrwydd wrth ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae'r sesiwn wedi cael ei dylunio ar gyfer staff Cymraeg a di-Gymraeg ac felly'n cael ei chyflwyno yn y ddwy iaith, ochr yn ochr â'i gilydd. Helpu staff i ddarparu Gofal Cwsmer dwyieithog da a'u galluogi i ymdrin yn gyfforddus ac yn hyderus â'r cyhoedd wrth sicrhau eu bod yn gallu gweithredu canllawiau gwasanaeth dwyieithog sy'n rhan o'n Cynllun Iaith Gymraeg. (Cwmni Iaith)	Cam nesaf y Cyflwyniad Corfforaethol – gorfodol i bob aelod newydd o staff y Cyngor	9 (100%)
8 Medi 2015 (3 awr)				17 (100%)
14 Ionawr 2016 (3 awr)				15 (100%)
10 Mawrth 2016 (3 awr)				12 (100%)
CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS				53 (100%)